**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU: TROSEDD AD ANRHEFN, 22 CHWEFROR 2024**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Elin Hywel (Cadeirydd)

Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Gwilym Jones, Linda Morgan, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Beca Roberts, Arwyn Herald Roberts, Elfed Powell Roberts, Peter Thomas, Rob Triggs a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd Dilwyn Morgan (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Mannon Trappe (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol) a Daron Owens (Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Rhydian Roberts (Prif Beiriannydd) a Rob Williams (Rheolwr Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 7:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC) a Meirion Williams (Pennaeth Cynorthwyol Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Kim Jones, Annwen Hughes a Rhys Tudur.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2023, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (GWYNEDD A MÔN)**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant, Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn a Phennaeth

Cynorthwyol Diogelu, Sicrwydd Ansawdd, Iechyd Meddwl a Diogelwch Cymunedol. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau o'r angen i graffu gwaith y Bartneriaeth yn ei gyfanrwydd yn hytrach na manylu ar unrhyw gorff neu sefydliad penodol.

Eglurwyd bod y bartneriaeth wedi ei ffurfio yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 sy'n gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, Gwasanaeth Iechyd, Gwasanaeth Prawf a Gwasanaeth Tân ac Achub i roi sylw i agenda diogelwch cymunedol lleol. Mae prif gyfrifoldebau'r bartneriaeth yn cynnwys: Trosedd ac Anrhefn, Camddefnyddio Sylweddau, Lleihau Aildroseddu, lleihau trais difrifol a sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR).

Nodwyd nad oes gan y bartneriaeth gyllid penodol ac yn ddibynnol ar grantiau rhanbarthol a chenedlaethol. Eglurwyd mai'r unig gomisiynu a wneir gan y bartneriaeth yw cynnal yr Adolygiadau Dynladdiad Domestig. Yn anffodus, esboniwyd bod y bartneriaeth yn gweithio ar 5 Adolygiad Dynladdiad Domestig eleni a nodwyd ei fod yn anochel bod gan y gwaith oblygiadau sylweddol a pharhaus ar adnoddau'r bartneriaeth.

Cydnabuwyd mai'r brif her sy'n wynebu'r bartneriaeth ar hyn o bryd ydi'r gwahanol fathau o droseddau sy'n digwydd o fewn ein cymunedau. Manylwyd bod datblygiadau technolegol wedi cynyddu'r cyfleoedd ble all pobl gael eu cam fanteisio gan Grwpiau Trosedd Cyfundrefnol. Ymhellach, ystyriwyd bod yr argyfwng costau byw yn cyfrannu at ffigyrau troseddau o fewn y maes diogelwch cymunedol.

Cadarnhawyd bod y Bartneriaeth yn gweithredu yn unol â chynllun blynyddol, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel. Nodwyd mai'r blaenoriaethau ar gyfer cynllun blynyddol 2023/24 ydi:

- Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar
- Mynd i'r Afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd.

Cyfeiriwyd at ffigyrau troseddu cyfredol gan nodi bod trais yn erbyn person wedi gostwng yn gyffredinol yng Ngwynedd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nodwyd hefyd bod cynnydd o 15.4% yn nhroseddau 'Dwyn a thrin' o'i gymharu â llynedd, ac ystyriwyd bod hyn yn ganlyniad i fwy o achosion troseddau manwerthu. Eglurwyd bod hyn yn dilyn yr ystadegyn bod lladrata o siopa wedi cynyddu 43% eleni o'i gymharu â llynedd, gyda chynnydd cyffredinol o 35% ar draws y rhanbarth. Manylwyd bod yr argyfwng costau byw yn cael ei ystyried fel un o'r ffactorau mwyaf blaenllaw dros y cynnydd hwn. Cydnabuwyd bod troseddau manwerthu bellach yn flaenoriaeth i'r heddlu ac mae gwaith sylweddol ar droed er mwyn sicrhau bod y ffigyrau hyn yn gwella. Sicrhawyd bod trigolion yn cael eu hysbysu o unrhyw gymorth sydd ar gael, a banciau bwyd lleol ble mae'n briodol.

Adroddwyd bod nifer o gymunedau Gwynedd yn tan-adrodd ar y digwyddiadau o fewn eu cymunedau. Cydnabuwyd bod hyn yn her i'r bartneriaeth mewn sawl maes megis trais yn y cartref, ble mae sawl digwyddiad yn mynd heibio cyn i ddioddefwyr chwilio am gefnogaeth. Pwysleisiwyd ei fod yn allweddol bod pobl yn adrodd ar ddigwyddiadau i'r heddlu drwy alw 101 neu gwblhau ffurflen electronig.

Nodwyd bod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi gostwng 12.6% y flwyddyn hon ond pwysleisiwyd bod y ffigwr hwn yn cael ei fesur yn rheolaidd oherwydd ei fod yn seiliedig ar nifer o alwadau sy'n cael eu gwneud i'r heddlu.

Cadarnhawyd bod ffocws wedi cael ei roi eleni ar Ddyletswydd Trais Difrifol a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2023. Esboniwyd bod dull rhanbarthol wedi cael ei fabwysiadu er mwyn cyfarch y disgwyliadau o ddeall darlun lleol o drais difrifol ar ffurf asesiad anghenion a pharatoi strategaeth mewn ymateb. Pwysleisiwyd bod y rhain wedi cael eu datblygu erbyn diwedd Ionawr 2023 a bellach yn nwylo'r Swyddfa Gartref. Nodwyd bod angen cydgordio gweithrediad y strategaeth yn lleol gyda phartneriaid. Cyfeiriwyd hefyd bod y bartneriaeth yn dymuno defnyddio'r dyletswyddau hyn er mwyn ail-gyflwyno rhaglenni addysgol mewn ysgolion.

Ymfalchïwyd bod y bartneriaeth wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn arian o'r Gronfa Ffyniant Cyffredin er diben ehangu'r system Teledu Cylch Cyfyng. Eglurwyd bod hyn yn cyd-fynd gyda nod un o Genhadaeth Lefelu i Fyny'r Deyrnas Unedig sef y bydd lladdiadau, trais difrifol, a throseddau yn y gymdogaeth wedi gostwng erbyn 2030. Pwysleisiwyd bod lleoliadau wedi cael eu hadnabod ble mae troseddau'n digwydd neu ble nad yw pobl yn teimlo'n ddiogel ble ellir ychwanegu teledu cylch cyfyng ychwanegol.

Cyfeiriodd aelod at y data trosedd meddiangar gan dynnu sylw bod cynnydd yn yr achosion yng Ngwynedd, yn enwedig yn y data ar gyfer lladradau gyda chynnydd o 60%. Amlygodd bod gostyngiad i'w weld ar draws Gogledd Cymru o dan nifer o'r penawdau. Awgrymodd y dylid monitro'r sefyllfa a chymharu gyda data hanesyddol rhag ofn bod tuedd yn datblygu. Nodwyd wrth wneud hyn gellir edrych i mewn i'r rhesymau am y cynnydd a beth ellir ei wneud i'w atal rhag cynyddu ymhellach.

Mynegwyd pryder ar ran y bartneriaeth bod niferoedd trais yn y cartref ar gynnydd a bod rhwystredigaethau yn codi wrth ymdrechu i ddarparu cymorth angenrheidiol. Eglurwyd bod cymorth o'r fath yn cael ei ariannu o dan ffrwd gwaith cefnogaeth symudol y Grant Cymorth Tai ond nid yw ei gyfraddau wedi cael ei ddiwygio i ystyried chwyddiant. Cadarnhawyd bod y mater hwn yn cael ei flaenoriaethu gan fyrddau'r bartneriaeth a bod trafodaethau rhanbarthol a chenedlaethol yn digwydd ar y mater

Eglurwyd bod y gwasanaeth Safonau Masnach yn cydweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru ar brosiect atal galwadau ar gyfer unigolion y nodwyd eu bod yn darged neu'n ddioddefwyr galwadau di-wahoddiad drwy brydlesu atalwyr galwadau. Cydnabuwyd mai oddeutu 10 dioddefwr sydd wedi derbyn atalwyr galwadau ar hyn o bryd ond gobeithir bydd y cymorth hwn yn cynyddu yn y dyfodol.

Mewn ymateb i ymholiad, cyfeiriwyd at Gynllun Lesu Preifat sydd yn cael ei ddatblygu gan Tim Digartrefedd yr Adran Tai ac Eiddo. Manylwyd mai nod y cynllun yw dod a mwy o landlordiaid preifat i osod eu tai fel opsiwn i ailgartrefu'r rhai sy'n ddigartref a lleihau'r defnydd o wely a brecwast a'r costau ynghlwm a hynny.

Mewn ymateb i ymholiad am ddefnydd o ddata a gasglwyd gan fudiadau yswiriant cefn gwlad, cadarnhawyd nad yw'r bartneriaeth yn derbyn y wybodaeth yma. Cydnabuwyd bod lladrata a materion cefn gwlad yn flaenoriaeth i'r bartneriaeth. Cytunwyd i ddarparu cysylltiadau Heddlu Cefn Gwlad i aelodau.

Amlygodd aelod yr angen i wahaniaethu rhwng data trais rhywiol diweddar a hanesyddol yn yr adroddiad.

Sicrhawyd byddai'r swyddogion yn cysylltu gyda'r heddlu er mwyn derbyn mwy o wybodaeth am yr isod cyn adrodd yn ôl i'r Aelodau, yn dilyn ymholiadau:

- Os yw'r heddlu yn cymharu data niferoedd troseddau gwrth cymdeithasol gyda digwyddiadau o dan effaith alcohol neu gyffuriau.
- Darparu ffigyrau manwl ar gyfer gwahanol ardaloedd yng Ngwynedd, os ydynt ar gael.

- Derbyn gwybodaeth am drawstoriad oedran troseddwyr yng Ngwynedd.

Cadarnhawyd byddai'r wybodaeth yma yn cael ei gynnwys yn adroddiad blwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn yr adroddiad a'r dogfennau atodol gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.**

**6. STRATEGAETH LLIFOGYDD LLEOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Rhydian Roberts (Prif Beiriannydd) a Rob Williams (Rheolwr Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd).Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr aelodau bod rhannau o'r strategaeth llifogydd lleol drafft wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yng nghyfarfod 30 Tachwedd 2023. Mewn ymateb i sylwadau'r Pwyllgor ble awgrymwyd y gallai risg o lifogydd priffyrdd gael effaith sylweddol ar ein cymunedau a bod angen i'r Strategaeth fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn ddigonol, tynnwyd sylw bod cam gweithredu newydd wedi cael ei ychwanegu i'r strategaeth, sef Cam Gweithredu 2.3A. Cadarnhawyd byddai ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth am gyfnod o chwe wythnos, gan gychwyn ar 26 Chwefror 2024. Sicrhawyd bod yr adran mewn cyswllt gyda'r gwasanaeth Cyfathrebu er mwyn sicrhau fod gymaint o bobl yn ymateb i'r ymgynghoriad â phosib, er mwyn rhannu gwybodaeth leol drwy holiadur neu alwad ffôn. Gobeithir bydd trigolion yn gweld yr ymgynghoriad yn cael ei hysbysebu yn eu papur bro ac ar y cyfryngau cymdeithasol, byddai hefyd yn cael ei roi ar wefan yr Aelodau er mwyn iddynt ei rannu gyda'u hetholwyr.

Eglurwyd bod datblygu Strategaeth Llifogydd Lleol yn un o ofynion Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010. Manylwyd hefyd bod angen i'r strategaeth fod yn gyson â'r Strategaeth Llifogydd Cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2023.

Atgoffwyd yr aelodau bod yr adran wedi cyflwyno'r bwriad o ystyried risgiau llifogydd mewndirol ac arfordirol ar wahân o fewn y Strategaeth newydd, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 27 Hydref 2022. Esboniwyd eu bod yn cael eu hystyried ar wahân oherwydd:

- Natur y risg a'r gallu i'w lliniaru
- Gwahaniaeth mewn rolau/cyfrifoldebau statudol a goddefol
- Polisïau a strategaethau ynghyd a gwahaniaethau yn strwythur ariannu prosiectau gan Lywodraeth Cymru.

Tywyswyd yr aelodau drwy'r Strategaeth gan dynnu sylw at faterion hanesyddol, cynlluniau ardaloedd, rhaniad cyfrifoldebau cyrff cyhoeddus, camau gweithredu, materion ariannol a'r amcanion strategol o wella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o risgiau llifogydd.

Adroddwyd bod cynnal a chadw ceuffosydd a rhigolau yn allweddol er mwyn rheoli lefelau dŵr wrth ymyl ffyrdd a thai. Cadarnhawyd y rhaglennir i wagio'r ceuffosydd o leiaf unwaith y flwyddyn gyda sylw ychwanegol i leoliadau ble mae trafferthion wedi ymddangos yn rheolaidd yn y gorffennol. Manylwyd bod ceuffosydd rheolaeth risg llifogydd, sydd wedi eu lleoli tu hwnt i ardaloedd priffyrdd, yn derbyn sylw bob pythefnos yn y gaeaf a pob 4 wythnos yn yr haf. Diweddarwyd bod dwy o'r ceuffosydd yn cael eu monitro drwy gamerâu sydd wedi cael eu mewnosod, sy'n gyrru negeseuon pan mae

lefelau dŵr wedi codi ac yn caniatáu iddynt dderbyn sylw yn amserol. Ymhelaethwyd bod hyn yn galluogi'r adran i weithredu'n amserol ac yn fwy penodol.

Eglurwyd bod gan yr adran gyfeiriad ebost penodol, ac app defnyddiol er mwyn tynnu sylw'r adran o unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â ceuffosydd a rhigolau yn lleol. Ystyriwyd y posibilrwydd o ddiweddaru lleoliadau ble mae'r adran wedi bod yn gweithio arnynt yn ddiweddar ar fap penodol ar wefan yr Aelodau, gan ganiatáu iddynt edrych i weld os yw'r problemau yn eu ardaloedd wedi eu datrys. Nodwyd bod hyn wedi cael ei ddatblygu ar gyfer gwasanaethau eraill megis lleoliadau biniau halen a byddai'r adran yn ymchwilio i weld os oes modd ei ddiweddaru gyda'r gwaith hwn. Cadarnhawyd byddai'r Adran yn rhannu rhaglen waith glanhau'r ceuffosydd a'r rhigolau gyda'r aelodau.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC bydd newid yn cael ei wneud i adrannau 4.1.4 a 4.1.5 o'r Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd Lleol (Drafft) er mwyn cyfeirio at y 'Cynllun Cyfredol' yn hytrach na chynlluniau datblygu lleol penodol er mwyn sicrhau bod yr adroddiad yn aros yn gyfredol.

Adroddwyd bod yr Adran yn cydweithio gyda'r gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth ar gynllun prawf synwyryddion. Nodwyd bod 5 synhwyrydd ar waith ar hyn o bryd, sy'n edrych i weld pryd mae lefelau dŵr yn newid. Cadarnhawyd bod hyn yn caniatáu i'r Adran ddatrys problemau fel maent yn digwydd, ac bod dotiau coch yn ymddangos ar fap pan mae digwyddiadau ar droed. Ymfalchïwyd bod yr Adran wedi derbyn gwobr cenedlaethol am y cynllun arloesol hwn yn ddiweddar.

Cadarnhawyd bod ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth ar fin cychwyn a byddai ymatebion yr ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor. Sicrhawyd byddai Aelodau yn derbyn gwybodaeth bellach am broblemau lleol wrth i'r Adran fynychu'r Fforymau Ardal dros yr wythnosau nesaf.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn yr adroddiad gan argymell:**

- **Bod angen cynnwys mwy o wybodaeth am raglen waith cynnal a chadw rhigolau a cheuffosydd yn y Strategaeth.**
- **Dylid ystyried addasu'r ddogfen fel bod y wybodaeth gyfredol yn unig yn cael ei nodi am y Cynlluniau Datblygu Lleol o dan bwyntiau 4.1.4 a 4.1.5.**

## 7. TORRI GWAIR A CHYNNAL YMYLON FFYRDD SIROL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC a'r Pennaeth Cynorthwyol. Tynnwyd sylw'n fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau bod trefniadau presennol mewn lle er mwyn torri gwair a chynnal ymylon ffyrdd sirol ddwywaith y flwyddyn. Nodwyd bod yr Adran yn gweithredu mewn unrhyw ardal sydd gyda cyfyngiad ffordd o hyd at 30 milltir yr awr ac bod contractwyr allanol yn gweithredu ar gyfer ardaloedd eraill y Sir. Manylwyd bod y contract allanol hwn yn diweddu o fewn y flwyddyn ac bydd yr Adran yn ymchwilio i'w adnewyddu.

Tynnwyd sylw at nifer o ddyletswyddau statudol ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau, gan nodi bod angen i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru eu bodloni. Manylwyd ar Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i wneud bioamrywiaeth yn rhan naturiol ac annatod o bolisïau a phrosiectau. Eglurwyd bod yr Adran yn mynd y tu hwnt i'r gofynion

hyn wrth sicrhau eu bod yn hadu fel rhan o dreialon bioamrywiaeth, gan nad oes gofyniad i wneud hynny.

Adroddwyd bod yr Adran wedi bod yn cydweithio gyda'r Gwasanaeth Bioamrywiaeth er mwyn cynnal treialon ar hyd ymylon ffyrdd yr A499 ac A497 yn Nwyfor ers Hydref 2022. Esboniwyd bod y treialon yn parhau yn yr ardal yma am dair blynedd er mwyn casglu data. Cadarnhawyd mai bwriad y treialon yw sicrhau bod newidiadau yn cael ei wneud er mwyn annog llystyfiant a bioamrywiaeth a hybu bywyd gwyllt yn yr ardal. Eglurwyd bod yr 8 lleoliad wedi eu dewis gan eu bod yn syth, llydan a hir a bod modd derbyn a dadansoddi data ystyrlon o'r treialon. Sicrhawyd bod y canlyniadau a dderbyniwyd hyd yma yn galonogol yn ogystal â'r ffaith fod yr Adran yn derbyn adborth cadarnhaol gan y cyhoedd. Pwysleisiwyd fod iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth i'r Adran ac felly ni fydd oediad ar dorri gwair wrth ymyl unrhyw fynedfa neu gyffordd oherwydd y treialon gan fod ardaloedd y treialon wedi ei gyfyngu i ffyrdd hir, syth a llydan. Gwahoddwyd yr aelodau i gysylltu gyda'r adran os oes pryderon yn codi am unrhyw fynedfa neu gyffordd sydd angen ei dorri yn amlach na'r trefniant presennol o ddwywaith y flwyddyn.

Cadarnhawyd bod y treialon yn parhau i gael eu cynnal ac yn tyfu. Manylwyd bod ardaloedd eraill o fewn Gwynedd wedi cael eu hadnabod ar gyfer ymestyn y treialon i Feirionnydd. Tynnwyd sylw at y ffaith bod cyrff eraill yn mabwysiadu'r un egwyddorion er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol.

Mewn ymateb i ymholiad ar ymwybyddiaeth y cyhoedd o risgiau newydd all godi megis 'ticks', cadarnhawyd bod hynny tu hwnt i gylch gorchwyl yr Adran ond byddai swyddogion yn cysylltu gyda'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd am wybodaeth ychwanegol.

Cydnabuwyd bod sbwriel sy'n cael ei daflu i ymylon ffordd yn parhau i fod yn heriol. Nodwyd bod trefniadau mewn lle er mwyn sicrhau bod y timau sy'n torri'r gwair yn rhannu eu rhaglenni gwaith gyda'r timau glanhau er mwyn sicrhau bod y sbwriel yn cael ei godi mor fuan a phosibl. Ymhelaethwyd bod yr adran yn cydweithio gyda'r gwasanaeth glanhau strydoedd er mwyn ceisio atal pobl rhag taflu sbwriel o'u cerbydau.

Awgrymodd aelod y dylid cydweithio gyda canolfannau cymunedol gan edrych ar y posibilrwydd o greu dolydd bywyd gwyllt.

Diolchwyd i'r swyddogion am eu gwaith gan nodi ei fod yn gwella morâl defnyddwyr cludiant cyhoeddus yn ogystal â gwella'r amgylchedd.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y drafodaeth.**
2. **Bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariad ymhen blwyddyn.**

**8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Diwygiedig Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2023/24 wedi'i fabwysiadu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Tachwedd 2023.

Manylwyd bod eitem 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 - Ymgynghoriad Cyhoeddus' wedi ei raglennu ar gyfer cyfarfod 18 Ebrill 2024. Pwysleisiwyd ei fod yn angenrheidiol rhoi ystyriaeth i'r hyn y bwriedir ei graffu oherwydd bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn ystod

cyfnod cyn etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a gynhelir ar 02 Mai 2024. Cadarnhawyd bod y Swyddog Monitro wedi rhoi arweiniad na ddylid craffu'r mater yn ystod y cyfnod cyn etholiad oherwydd natur y drafodaeth yng nghyswllt cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4.

Eglurwyd bod dyddiad wedi ei adnabod o fewn calendr drafft pwyllgorau 2024/25 a fydd yn darparu cyfle i graffu'n amserol cyn i'r Cabinet ddod i benderfyniad ar y mater. Nodwyd y bwriedir cynnal y cyfarfod ar 16 Mai 2024, ond eglurwyd bod hyn yn ddibynnol ar benderfyniad y Cyngor Llawn yng nghyfarfod 07 Mawrth 2024, pan fydd Aelodau yn ystyried y calendr pwyllgorau.

Yn sgil y newid hwn, cadarnhawyd bod yr Ymgynghorydd Craffu wedi ymgynghori gyda'r Cadeirydd er mwyn ail-raglennu eitem 'Llawlyfr Cynnal Priffyrdd' o'r cyfarfod hwn (22 Chwefror 2024), i'r cyfarfod a gynhelir ar 18 Ebrill. Eglurwyd bydd hyn yn darparu cyfle i roi sylw teg i'r eitemau gan fod tair eitem wedi ei raglennu ar gyfer pob cyfarfod.

Oherwydd y prinder amser rhwng cyfarfodydd 18 Ebrill ac 16 Mai 2024, cynigwyd bod y Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn adnabod eitemau i'w trafod ynghyd â'r eitem 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus' yng nghyfarfod fis Mai, yn eu cyfarfodydd cyswllt gyda Penaethiaid Adran ac Aelodau Cabinet perthnasol. Esboniwyd byddai hyn yn sicrhau amser digonol i'r Adrannau baratoi'r adroddiadau. Nodwyd y cyflwynir adroddiad gerbron y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2024, er mwyn cadarnhau'r
eitemau i'w craffu yng nghyfarfod mis Mai.

Atgoffwyd yr aelodau o'r cyfle i flaenoriaethu eitemau i'w craffu ar gyfer gweddill cyfarfodydd 2024/25 yng Ngweithdy Blynyddol y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

1. **Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**
2. **Cadarnhau'r trefniadau i adnabod eitemau i'w trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mai 2024.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 12:45yp

____________________________________
CADEIRYDD